**Cofnodion Pwyllgor Clwb Mynydda Cymru a gynhaliwyd nos Lun, 15fed Mai, 2023 drwy gyfrwng Zoom**

**Presennol**: Steve (SW),**(Cadeirydd)** Iolo Roberts (IPR),Iolo ap Gwynn (IAG),Richard (RR), Keith (KR), Dwynwen (DP), Elen (EH), Ariannell (AP), Gethin (GR)

Ymddiheuriadau: Dilys, Sioned, Dewi, Raymond

| | | |
|---|---|---|
| **1.** | **COFNODION**<br><br>Derbyniwyd cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 9fed Ionawr, 2023 fel rhai cywir<br><br>Eitem 11 Digwyddiadau ar deithiau<br><br>Adroddodd IPR ei fod wedi gwneud ymholiadau â'r CMP a chael ar ddeall fod ffurflen newydd bellach i hysbysu'r CMP a'u hyswirwyr o ddigwyddiadau difrifol ar deithiau. Gyda'r ffurflen newydd yma byddai'n rhaid i arweinydd y daith berthnasol ei chwblhau cyn ei hanfon i swyddogion y Clwb i'w chymeradwyo a'i hanfon ymlaen.<br><br>Cytunwyd gofyn i IPR yrru'r manylion i RR er mwyn eu cynnwys ar wefan y Clwb ac i gylchredeg i arweinyddion er mwyn eu gwneud yn ymwybodol o hyn | |
| **2.** | **MATERION ARIANNOL**<br><br>Cafwyd diweddariad gan DAP ynglŷn â'r sefyllfa gyfredol<br><br>Adroddodd<br><br>• bod 240 o aelodau gan y Clwb ar 20fed Ebrill 2023 a hefyd 70 o "Gyfeillion" nad oeddynt yn talu'r tâl aelodaeth llawn<br><br>• bod swm o £6,225.78 yn y banc ar 20fed Ebrill 2023 yn cynnwys £881.41 o arian coffa Gareth Pierce<br><br>• bod angen i'r Pwyllgor benderfynu os am ail ymaelodi â'r Bartneriaeth Awyr Agored eleni (ar gost o £150) a hefyd sut i wario arian coffau Gareth Pierce, o bosib mewn cydweithrediad hefo'r Urdd, i hyrwyddo gweithgareddau awyr agored i ieuenctid fel y crybwyllwyd yn y gorffennol<br><br>Cytunwyd<br><br>i. Nodi'r wybodaeth<br>ii Nodi bydd y Pwyllgor yn trafod materion y Bartneriaeth Awyr Agored yn ddiweddarach yn y cyfarfod<br>iii. gofyn i SW drafod hefo Eryl ac wedyn cysylltu â'r Urdd i weld a fyddai modd defnyddio'r arian ar gyfer yr un diben eleni | |
| **3.** | **CYFARFOD BLYNYDDOL 2023**<br><br>Ystyriwyd dyddiad a lleoliad ar gyfer Cyfarfod Blynyddol 2023.<br><br>Cytunwyd y dylid edrych am safle yn ardal Dolgellau ar benwythnos 10fed Tachwedd os yn bosib fel dewis cyntaf gyda Betws y Coed fel safle wrth gefn. | |

| | | |
|---|---|---|
| | | |
| **4.** | **<u>CYNLLUNIO RHAGLEN WEITHGAREDDAU'R CLWB</u>**<br><br>A. Materion Cyffredinol<br><br>Adroddodd RR ar y materion canlynol:<br><br>• Byddai'n cynnig mwy o deithiau pe byddai digon o gynigion ar gyfer hynny ac roedd yn gobeithio y gellid cael pwll mwy o arweinyddion i'w harwain<br><br>• Bod KR wedi trefnu taith breswyl i Roybridge yn yr Alban ym mis Mai ac yn trefnu wythnos yn Crianlarich yn mis Chwefror.<br><br>Cytunwyd nodi'r wybodaeth<br><br>B. Trefniadau ar gyfer teithiau'r Clwb<br><br>Ystyriwyd nifer o awgrymiadau ynglŷn â threfniadau teithiau 'r Clwb a beth ddylid ei gynnwys yn y canllawiau ar dudalen flaen y rhaglen ar y wefan<br><br>Cytunwyd y dylid nodi<br><br>i. bod disgwyl i aelodau gysylltu â'r arweinydd er mwyn sicrhau lle ar daith<br><br>ii. bod gan arweinyddion teithiau hawl i gyfnewid dyddiad teithiau dydd Sadwrn a dydd Sul pe bai rhesymau dilys e.e. tywydd garw<br><br>iii. y dylai arweinydd wybod rhif ffôn ac enw cyswllt pawb rhag ofn argyfwng<br><br>iv. bydd RR yn ystyried sut i eirio cymal i ddweud y gall aelod, os y dymuna, hysbysu arweinydd o fater meddygol allai fod yn berthnasol e.e. os hefo alergedd i gnau ac yn cario teclyn EpiPen yn eu bag . | |
| **5.** | **<u>EISTEDDFOD GENEDLAETHOL 2023</u>**<br><br>Adroddodd DP<br><br>• bod Catrin Meurig yn traddodi Darlith Goffa Llew Gwent eleni i sôn am ei hamryw anturiaethau dros y blynyddoedd<br><br>• ei bod wedi archebu slot ym Mhabell y Cymdeithasau ar ddydd Sadwrn 12fed Awst am 11.30. Roedd wedi cael cryn drafferth cael slot<br><br>• bod SW yn trefnu poster cyhoeddusrwydd ar gyfer y ddarlith i'w ddosbarthu ar y cyfryngau cymdeithasol<br><br>Cytunwyd<br><br>i. diolch i DP am ei gwaith yn gwneud y trefniadau<br>ii. nodi bod angen i'r poster cyhoeddusrwydd gael ei gyhoeddi cyn gynted ag yn ymarferol ac y dylai ymddangos sawl gwaith er mwyn lledaenu'r neges<br>iii. gofyn i RR i gysylltu â Catrin i holi am deitl ar gyfer ei darlith | |
| **6.** | **<u>MATERION CMP</u>**<br><br>Adroddodd SW | |

| | | |
|---|---|---|
| | • bod Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri yn ymgynghori ynglŷn â'u gwaith ar lwybrau cyhoeddus a bod y CMP wedi nodi eu bod yn cefnogi yn gryf gwneud gwaith atgyweirio er mwyn cynnal a chadw llwybrau presennol ond y dylid peidio â'u gorddatblygu  ac ni ddylid sefydlu rhai o'r newydd<br><br>• bod trefnwyr Gŵyl Hongian Blaenau Ffestiniog wedi cysylltu â'r CMP yn gofyn am gefnogaeth i hyrwyddo'r ŵyl a gynhelir dros benwythnos 20-21 Mai.<br><br>Cytunwyd nodi'r wybodaeth a gofyn i SW edrych ar ddefnyddio gwefannau cymdeithasol y Clwb i ledaenu'r neges am yr Ŵyl Hongian eleni | |
| **7.** | **<u>MATERION Y BARTNERIAETH AWYR AGORED</u>**<br><br>Adroddodd SW<br><br>• bod y Trysorydd wedi nodi yn ei hadroddiad bod angen i'r Clwb benderfynu  os yw am ymaelodi eleni a thalu'r tâl aelodaeth o £150 er mwyn i aelodau'r Clwb gael mantais o'r hyfforddiant gwerth £500 sydd ar gael i glybiau<br><br>• bod y Clwb wedi ymaelodi y llynedd ond na wnaed unrhyw ddefnydd o'r £500 oedd ar gael i gefnogi hyfforddiant awyr agored i aelodau. Yn sgil hyn roedd Sian Williams o'r Bartneriaeth wedi datgan y byddai'n bosib cario drosodd y £500 i'r flwyddyn bresennol fel bod swm o £1,000 ar gael i gefnogi hyfforddiant i aelodau<br><br>• y cynhaliwyd cyfarfod Zoom hefo Sian i aelodau'r Clwb oedd â diddordeb mewn mynychu cyrsiau awyr agored. Roedd oddeutu 10 aelod wedi mynychu ac roedd diddordeb gan nifer mewn dilyn cwrs Arweinydd Mynydd (Haf) a eraill yn y de â diddordeb mewn cwrs tiroedd isel (Lowland)<br><br>• bod Sian yn gobeithio gyda'r £1000 fydd ar gael i'r Clwb os ymunir eleni, a hefyd drwy edrych am ffynonellau posib eraill o gymorth, y gellid cynnig hyfforddiant Arweinydd Mynydd (Haf)  eleni i aelodau sy'n dymuno ei ddilyn am gost rhesymol. Byddai hefyd yn ystyried  beth fyddai'n bosib hefo cwrs  tiroedd isel<br><br>Cytunwyd<br><br>i. ymaelodi â'r PAA am  2023 a gofyn i'r Trysorydd wneud y taliad angenrheidiol<br>ii. nodi cefnogaeth y Pwyllgor i aelodau ennill  cymwysterau a fyddai yn hyrwyddo eu sgiliau mynydda ac a fyddai o fudd wedyn i weithgareddau'r Clwb. | |
| **8** | **<u>HYRWYDDO TEITHIAU</u>**<br><br>Adroddodd AP ei bod hi a Matthew Williams wedi bod yn meddwl  y byddai'n syniad creu digwyddiad ar gyfer teithiau'r Clwb ar  Facebook er mwyn cynyddu cyhoeddusrwydd ac o bosib gwneud mwy o bobl iau yn ymwybodol o'r teithiau.<br><br>Cytunwyd<br><br>i. cefnogi'r syniad os byddai'n ymarferol i'w wireddu a nodi y byddai'n dda o beth   i'w dreialu ar un neu ddwy o deithiau yn y lle cyntaf i weld sut byddai yn gweithio<br><br>ii. gofyn i IAG holi  a  fyddai côst i'r  Clwb os y gwneid  hyn ac a fyddai  mwy nag un person yn gallu bod yn gyfrifol am y dudalen Facebook fel y gellid rhannu'r baich o'i weinyddu. | |
| **9.** | **<u>GRADDIO TEITHIAU'R CLWB</u>** | |

| | | |
|---|---|---|
| | Ystyriwyd yr angen i gael rhyw fath o drefn i raddio teithiau'r Clwb. Gallai hyn roi syniad i aelodau newydd a rhai hefo ychydig o brofiad am natur y teithiau sy'n cael eu cynnig ac osgoi sefyllfaoedd yn codi fel a gafwyd sawl tro yn ddiweddar o aelodau newydd yn dod ar deithiau a oedd yn rhy heriol iddynt ac wedi methu eu cwblhau. Gyda threfn o raddio teithiau gellid rhoi gwell syniad am natur y teithiau a chyfeirio aelodau newydd at deithiau haws i gychwyn arnynt<br><br>Cytunwyd gofyn i RR ddrafftio cyfres o ganllawiau ar gyfer graddio teithiau'r Clwb a'u cylchredeg ymysg aelodau'r Pwyllgor i'w hystyried drwy gyfrwng e-bost. | |
| **10.** | **<u>CYFARFOD NESAF Y PWYLLGOR</u>**<br><br>Cytunwyd y bydd cyfarfod nesaf y Pwyllgor yn cael ei gynnal am 8pm, nos Lun 11eg o Fedi, 2023, drwy gyfrwng Zoom. | |